



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

14 MAI 2018

STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG - ADRODDIAD CYNNYDD

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES MEWN TRAFODAETH Â'R AELOD PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNGHORYDD G. HOPKINS

Awduron: Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, fel y cymeradwywyd 25 Ionawr 2017.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Cytuno ar darged newydd ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf yng ngoleuni Strategaeth Llywodraeth Cymru: 'Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' a gafodd ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017.
- 2.3 Parhau i fwrw 'mlaen gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu cytunedig cyfredol.

3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi strategaeth i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac i gyhoeddi'r strategaeth ar wefan y Cyngor erbyn 30 Hydref 2016.

- 3.2 Cytunwyd y byddai adroddiad cynnydd ynglŷn â Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg fel y byddai modd i'r Pwyllgor fonitro'r cynnydd hwnnw.
- 3.3 Ar ôl i Gyngor Rhondda Cynon Taf gytuno ar ei strategaeth i hwyluso a hybu'r iaith Gymraeg yn y sir yn unol â'r amserlen sydd wedi'i nodi yn Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr Cymraeg*. Mae'r targedau uchelgeisiol yn y ddogfen yma yn ei gwneud hi'n ofynnol i Rondda Cynon Taf adolygu ei tharged gwreiddiol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg er mwyn cyfrannu'n briodol at weledigaeth Llywodraeth Cymru, sef, miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2020.

4. CEFNDIR

- 4.1 Cafodd Cynllun Gweithredu ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg ei ddatblygu o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i nodi o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg 2011, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor o fewn yr amser gofynnol.
- 4.2 Cafodd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) eu datblygu yn ystod 2016 ar y cyd â Sbectrwm, sef, sefydliad sydd â phrofiad helaeth o gynllunio iaith; Menter iaith ac aelodau o'r Fforwm iaith, Gwasanaethau'r Cyngor a Chynghorwyr.
- 4.3 Ymgynghorwyd â thrigolion er mwyn deall yr hyn a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a pha wasanaethau roedden nhw o'r farn yw'r rhai mwyaf pwysig o ran hybu'r iaith. Cawson nhw eu gwahodd i roi'u barn ynglŷn â pha weithgareddau a fyddai'n cefnogi'r defnydd o'r iaith orau. Cafodd yr ymgynghoriad yma ei gynnal rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2016.
- 4.4 Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn canolbwyntio ar y canlynol:
- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 3% (833)
 - cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
 - codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru.

5. Y SEFYLLFA BRESENNOL A'R CYNNYDD

- 5.1 Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg ym mis Ionawr 2017, cafodd copi o'r Cynllun Gweithredu terfynol ei anfon at y Prif Weithredwr.

- 5.2. Y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun Gweithredu er ei fod yn dibynnu ar ei bartneriaid Fforwm Iaith am gymorth i gyflawni agweddau ar y Cynllun. Cafodd y camau a'r targedau a gafodd eu dyrannu i Wasanaethau'r Cyngor eu trafod mewn cyfarfod o'r Prif Swyddogion ddechrau mis Gorffennaf 2016. Yn y cyfarfod yma, cytunwyd y dylid pennu prif swyddogion ar gyfer pob cam i sicrhau atebolrwydd.
- 5.3 Mae'r cynnydd sy'n ymwneud â llawer o'r targedau yma yn cael eu cofnodi yn ystod proses hunanwerthuso'r Cyngor sy'n sicrhau cysondeb ar draws cynlluniau'r gwasanaethau heb ychwanegu at lwyth gwaith y gwasanaethau. Mae'r wybodaeth yma wedyn yn cael ei chynnwys mewn Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.
- 5.4 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y targedau sydd wedi'u cytuno gyda sefydliadau partner yn cael ei rhoi yng nghyfarfodydd y Fforwm Iaith, neu, os ydyn nhw'n cael eu comisiynu gan wasanaethau'r Cyngor, mae'r wybodaeth yma'n cael ei chofnodi yn adroddiadau hunanwerthuso'r gwasanaethau.
- 5.6 Mae'r prif bwyntiau cynnydd i'w gweld yn Atodiad 1,
- 5.7 Mae cysylltiad agos rhwng Strategaeth Hybu'r Gymraeg a 'Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' y Cyngor a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2018 - dim ond 15 o gynlluniau a gafodd eu cymeradwyo i gyd.
- 5.8 Mae'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud i'n Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ailgyflwyno, sy'n rhan annatod o'n Cynllun Gweithredu Hybu'r Iaith Gymraeg, wedi rhoi sylfaen fwy cadarn i'r cynnydd ac yn dangos ymrwymiad i gefnogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â '*Cymraeg 2050*'.
- 5.9 Serch hynny, mae strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*, yn golygu bod angen i'r Cyngor adolygu ei darged ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn y sir 3% (2021), sef 883 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol.
- 5.10 Mae *Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae hi wedi cael ei pharatoi yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yma'n disodli *Iaith Fyw: Iaith Byw*, sef *Strategaeth Iaith Gymraeg 2012-17*, a'i ddatganiad polisi cysylltiedig, *Iaith Fyw: Iaith Byw - Symud Ymlaen*. Mae Strategaeth *Cymraeg 2050* yn nodi dull tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
<https://www.youtube.com/watch?v=QUzi8OiLMU0>

5.11 Mae targedau siart twf y Strategaeth fel a ganlyn:

Niferoedd:

2011: 562,000	2017: 570,000	2021: 600,000	2026: 630,000
2031: 680,000	2036: 750,000	2041: 01443 281136	920,000
2050: 1,000,000			

Mewn canrannau cyfansawdd:

2011: dd/b	2017: +1.43%	2021: +5.3%	2026: +5%
2031: +7.9%	2036: +10.3%	2041: +10.7 %	2046: +10.8%
2050: +8.7%			

5.12 Yn ei hanfod, mae angen i ni gael cynnydd o 78% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Dyma'r tair thema a fydd yn sail i'r twf hwnnw:

- **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** • Trosglwyddo iaith yn y teulu • Y blynyddoedd cynnar • Addysg statudol • Addysg ôl-orfodol • Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau
- **Thema 2: Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg** • Y gweithle • Gwasanaethau • Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun** • Cymuned a'r economi • Diwylliant a'r cyfryngau • Cymru a'r byd ehangach • Technoleg ddigidol • Seilwaith ieithyddol • Cynllunio iaith • Gwerthuso ac ymchwil

5.13 Mae llawer o'r themâu yma'n rhan o swyddogaethau cyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac mae rhai o'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg Rhondda Cynon Taf.

5.14 Er mwyn adlewyrchu gweledigaeth a thargedau Llywodraeth Cymru, bydd angen i'r Cyngor gynyddu'r ganran o siaradwyr Cymraeg tua 1.66% y flwyddyn tan 2021. Yn nhermau niferoedd, dyma'r targedau:

2018: 28,240 (+461)
2019: 28,709 (+469)
2020: 29,185 (+476)
2121: 29,670 (+485)

Y cyfanswm mewn niferoedd: 1,891 (targed: 29,670), cynnydd o 6.8%.

- 5.15 Yn ei gyd-destun, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cytuno i 177 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol ym Merthyr Tudful fesul blwyddyn, yn seiliedig ar y boblogaeth gyfredol o 59,000, ac mae Cyngor Caerdydd wedi cytuno i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd (36,735 yn ôl Cyfrifiad 2011) i 42,584, sef 5,849 neu 15% ychwanegol.

6. CAMAU NESAF

- 6.1 Os yw'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn penderfynu argymhell cymeradwyo'r targed diwygiedig yn y Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu, bydd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Gweithredu yn cael ei dosbarthu ar unwaith i'r Prif Swyddogion a'r Fforwm Iaith er mwyn iddyn nhw eu trafod.
- 6.2. Does dim cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu unrhyw agweddau eraill ar y Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu.

7. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 7.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

8. YMGYNGHORI

- 8.1 Cafodd proses ymgynghori ei chynnal cyn i'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu gael eu cytuno. Dyw proses ymgynghori arall ddim yn ofynnol ar gyfer y diwygiad yma.

9. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

- 9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, fe fydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol 2015 ar gyfer y Gymraeg sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

11. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

- 11.2 Mae'r adroddiad yma'n tynnu sylw at yr angen i gynyddu'r targed o ran nifer y Siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf dros y pum mlynedd nesaf er mwyn cyfrannu'n well at nod tymor hwy Llywodraeth Cymru, sef, cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n tynnu sylw at y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd gyda'i bartneriaid i gyflawni'r targedau gofynnol ac i leihau'r tebygolrwydd o gael cwynion gan drigolion sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd y Cynllun Gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth ei baratoi ar ôl ymgynghori â thrigolion ac mae eu sylwadau wedi llunio'r cynnwys.
- 11.3 Mae cynnwys yr adroddiad yn gysylltiedig yn uniongyrchol â Nod 6 o'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd rhoi'r Strategaeth ar waith yn gefn i normaleiddio'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a thros amser, yn helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os dyna'u dymuniad.

12. CASGLIAD

Er mwyn cynnal a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, bydd gofyn i'r Cyngor a'i bartneriaid barhau i flaenoriaethu rhai meysydd polisi allweddol ar gyfer eu gweithredu a gweithio gyda'i gilydd tuag at nodau cyffredin fel sydd wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu.

Er bod y targed ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*, mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflawni'r targedau hynny.

Mae *Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* yn Strategaeth 32 o flynyddoedd, sydd ag ymagwedd gam wrth gam tuag at gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. O ganlyniad, bydd angen i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhondda Cynon Taf gael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn ymateb i amrywiadau yn y cynnydd.

Atodiad 1

Cynnydd o ran camau gweithredu'r Cyngor:

GWASANAETH	CAM GWEITHREDU	CYNNYDD
Addysg	<ul style="list-style-type: none"> - Adleoli Ysgol Gymraeg Tonyrefail i safle presennol Ysgol Gynradd Tonyrefail 	Bydd gwaith i adnewyddu'r adeilad yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau'r haf 2018, er mwyn caniatáu i'r ysgol adleoli ym mis Medi 2018, yn unol â'r cynllun.
	<ul style="list-style-type: none"> - Ymestyn Ysgol Gymraeg Llwyncelyn i safle Ysgol Babanod Llwyncelyn sydd gyferbyn 	Bydd gwaith i hwyluso hyn yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau'r haf 2018, a bydd yr estyniad i adeilad y babanod wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2018, yn unol â'r cynllun.
	<ul style="list-style-type: none"> - Ystyried effeithiau datblygiadau tai newydd ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg 	Bydd Addysg yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr o Reoli Datblygu i sicrhau ein bod yn cymryd rhan yn y camau cynllunio ar gyfer datblygu tai newydd ar y cyfle cyntaf posibl. Unwaith ein bod ni'n sicr bod datblygiad yn mynd rhagddo a bod cytundeb o ran nifer y cartrefi sy'n cael eu hadeiladu, mae asesiad o'r effaith ar yr ysgolion presennol yn yr ardal yn cael ei gynnal, er mwyn deall a fydd diffyg llefydd mewn ysgolion, ac ym mha sector addysg y bydd hynny. Yna, bydd yr achosion busnes gofynnol ar gyfer y cyllid i ddarparu llefydd ysgol newydd, a all fod yn estyniadau i'r ysgolion presennol neu ddarparu

		rhai newydd, yn cael eu paratoi.
	<ul style="list-style-type: none"> - Llunio cynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i'r twf amcanol yn y sector cynradd 	Bydd y gwaith yma'n cael ei wneud yn rhan o'n dyletswyddau cynllunio ysgolion statudol ac ar y cyd â'r gwaith sy'n ymwneud â datblygu tai newydd, fel sydd wedi'i grybwyll uchod.
Gwasanaethau i Bobl Ifainc	<ul style="list-style-type: none"> - Creu ap/fideo/taflen a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant 	Mae taflen wedi'i chreu a'i dosbarthu drwy'r cyrff perthnasol
	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu strategaeth ar y cyd a fydd yn sicrhau mai'r Gymraeg fydd iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. 	Mae strategaeth ar y cyd wedi cael ei datblygu gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Menter Iaith a'r Urdd sy'n nodi camau gweithredu ac amserlenni - bydd y strategaeth yma'n cael ei hadolygu bob tri mis
	<ul style="list-style-type: none"> - Pob ysgol i gytuno ar Ddatganiad Cenhadaeth a chod ymddygiad, a sefydlu fforymau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r iaith. 	Mae hyn wedi'i gwblhau yn Ysgol Garth Olwg, Ysgol Llanhari ac Ysgol Rhyd-y-waun
	<ul style="list-style-type: none"> - Parhau i gynnal Fforymau i Bobl Ifainc ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a'u helpu i drefnu cyfres o 	Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus ac mae 26 o weithgareddau wedi'u cynnal hyd yma

	weithgareddau cymdeithasol	
	<ul style="list-style-type: none"> - Cefnogi clybiau ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn Rhyd-y-waun, Llanhari, Pontypridd ac Aberdâr 	<p>Mae sesiynau gyda'r nos ar gyfer pobl ifainc wedi'u sefydlu ym Mhenderyn, Garth Olwg ac Aberdâr ac mae nifer lled dda o bobl ifainc rhwng 11 a 25 oed yn eu mynychu. Mae sesiynau gyda'r nos hefyd wedi'u cyflwyno yn yr Adran ym Mhont-y-clun, yn Aelwyd Pontypridd a Chwm Rhondda ac mae clwb drama wedi'i sefydlu yng Ngarth Olwg</p>
Cymunedau a Ffyniant	<ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Cymuned i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol yn Gymraeg 	<p>Mae'r gwaith i sefydlu'r Canolfannau yn mynd rhagddo</p>
Diwylliant	<ul style="list-style-type: none"> - Trefnu cyfres o weithdai i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ddiddordebau, er enghraifft, chwaraeon, drama, dawns, celf a chrefft, gemau cyfrifiadur, gweithgareddau awyr agored 	<p>Gweithdai drama ar gyfer plant a phobl ifainc wedi'u sefydlu yn sgil Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017 yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, mewn partneriaeth â Menter Iaith RhCT. Mae'r Ganolfan hefyd yn hwyluso rhaglennu cynyrchiadau theatr cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Cafodd cais llwyddiannus ei gyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru i sefydlu Rhwydwaith Diwylliannol Cwm Cynon yn rhan o ddathlu 80 mlynedd ers</p>

		<p>sefydlu Theatr y Colisëwm.</p> <p>Cyfleoedd wedi'u creu i blant, pobl ifainc a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithdai creadigol a diwylliannol trwy ein partneriaeth gydag 'It's My Shout' a'i brosiect i greu ffilmiau byr i'r BBC ac i S4C er mwyn cefnogi GwylGrai2017, sef, gŵyl gelfyddydau ar gyfer pobl ifainc gan bobl ifainc, sy'n helpu artistiaid ifanc i ddatblygu eu talentau.</p> <p>Datblygu cynhyrchiad ar y cyd â chwmni Gareth John Bale o 'Miss Julie' a fydd yn cael ei berfformio yn Theatr y Colisëwm ym mis Ebrill 2018.</p>
Addysg i Oedolion	<ul style="list-style-type: none"> - Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen o gyrsiau dysgu i oedolion ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar draws y sir 	<p>20 cwrs erbyn diwedd blwyddyn academiaidd 2017/18.</p> <p>Mae 9 cwrs undydd yn y Gymraeg wedi'u cynllunio hefyd.</p>
Gwasanaeth Llyfrgelloedd y	<ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod ystod addas o weithgareddau ar gael i blant a phobl ifainc yn y llyfrgelloedd. 	<p>Cafodd 7 sesiwn gwyliau eu cynnal a daeth 52 o blant ac 13 o oedolion iddyn nhw.</p> <p>Sesiynau Cymraeg i Blant wythnosol sy'n cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd ar draws y sir.</p>
Gwasanaethau Hamdden	<ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod gwersi nofio ar gael drwy gyfrwng 	<p>Bydd Gwersi Nofio yn cael eu trosglwyddo o leoliadau ysgol i Brif</p>

	<p>y Gymraeg yn rhan o'r ddarpariaeth ar ôl yr ysgol, a hynny hyd at lefel 1 o leiaf</p>	<p>Ganolfannau'r Cyngor. Bydd y gwersi yn cael eu cynnig trwy gytundeb ar y cyd gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf a'r Urdd.</p>
<p>Gwasanaethau Cymraeg</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Dosbarthu'r daflen 'Bod yn Ddwyieithog' a chreu adnoddau marchnata eraill i gynyddu'r niferoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg - Cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a Saesneg er mwyn darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y Safonau Iaith. - Archwilio sgiliau iaith y staff a'r Aelodau Etholedig - Darparu cyfleoedd i staff wella eu sgiliau iaith - Trefnu rhaglen o hyfforddiant 	<ul style="list-style-type: none"> - Dosbarthu llyfrynnau 'Bod yn ddwyieithog' gyda llyfrynnau 'Dechrau'r Ysgol'. Wedi lawrlwytho'r ddogfen i'r wefan gorfforaethol hefyd. - Wedi cefnogi newid i Bolisi Recriwtio a Dethol Cyngor RhCT i gyflwyno Asesiad Iaith Gymraeg yn ystod y broses recriwtio er mwyn ystyried anghenion y swyddi / meysydd gwasanaeth o ran yr Iaith Gymraeg. - Archwiliad o fedrau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae 900 o staff ar ôl. Proses yn eu lle i archwilio medrau'r staff sy'n weddill. - Mae Tiwtor y Gymraeg yn

	<p>Ymwybyddiaeth iaith a Chydymffurfio a chynnwys sesiwn ymsefydlu ar gyfer staff newydd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Paratoi adnoddau, deunydd hyrwyddo ac effeithiau gweledol sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ac yn meithrin parch tuag at ddwyieithrwydd - Defnyddio'r fewnrwyd i gyfeirio staff i adnoddau iaith defnyddiol, er enghraifft, e-ddysgu, adnoddau gwirio sillafu a gramadeg ar-lein, geiriaduron ac adnoddau cyfieithu ar-lein - Datblygu'r fewnrwyd i gyfeirio staff i gyrсияu a gweithgareddau Cymraeg yn y 	<p>darparu gyrсияu ar bob lefel ar gyfer staff er mwyn gwella'u sgiliau.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae sesiynau Ymwybyddiaeth iaith yn cael eu cynnal i bob person graddedig a phrentis ynghyd â nifer o sesiynau ymsefydlu gyda gweithwyr newydd. Tudalennau 'Inform' yn cael eu diweddarau i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael. - Cyfarfodydd dwyieithog, gwasanaethau wedi'u comisiynu a phosteri wedi'u paratoi ar gyfer eu defnyddio ar draws yr awdurdod lleol i roi rhagor o bwyslais ar y ffaith bod croeso i gwsmeriaid gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg, a gwella brand Cymraeg a Chymreig y Cyngor. - Bellach mae'n haws defnyddio 'Inform' gan fod y tudalennau wedi'u diweddarau ac mae templedi sy'n cael eu
--	---	---

	<p>gymuned.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Parhau i ddatblygu mentrau sy'n creu amgylchedd sy'n meithrin y defnydd o'r Gymraeg gan staff, er enghraifft, bathodynau, poster, cortynnau gwddf, logo <i>Cymraeg</i> ar negeseuon e-bost ac ar y fewnrwyd, llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa • Sut i gael cyfieithiad • Llyfryn i staff - <i>Cymraeg: beth sydd wedi newid?</i> • Bathodynau, cortynnau gwddf, poster • Llyfryn TGCh: <i>Cymorth ar flaen eich bysedd</i> • Prosbectws Cymraeg i Oedolion • Matiau llygoden • Llyfryn 'Bod yn ddwyieithog' • Taflen crynodeb o negeseuon 	<p>defnyddio'n aml a thafleddi cymorth wedi'u cynnwys hefyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Erbyn hyn, mae 'Inform' hefyd yn cynnwys tudalen unigryw ar ddysgu Cymraeg gyda'r Cyngor neu yn y gymuned. - Mae poster wedi'u paratoi a fydd yn cael eu rhoi yn y derbynfeydd yn 18-19. Mae logos ar gyfer negeseuon e-bost wedi'u datblygu a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn 18-19, er mwyn creu brand ar gyfer 'Lefelau laith'. Rydyn ni'n parhau i ddsbarthu cortynnau gwddf a bathodynau ymhlith staff sydd â sgiliau Cymraeg. Tafleddi cymorth wedi'u diweddarau ar 'Inform' a fydd yn helpu staff i greu negeseuon e-bost ac 'allan o'r swyddfa' dwyieithog, a chynnal
--	--	--

	<p>corfforaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Darparu hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno yn y Gymraeg ac archwilio ymarferoldeb darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd mewnol 	<p>cyfarfodydd dwyieithog hefyd. Parhau i ddsbarthu llyfrynnau 'Beth sydd wedi'i Newid' a 'Chanllawiau Estynedig i Staff a Rheolwyr'. Wedi cynhyrchu rhagor o fatiau llygoden sy'n cynnwys 'Cyfarchion Ffôn' er mwyn i staff gydymffurfio â'r safonau perthnasol wrth ateb y ffôn.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae'r llyfryn 'Bod yn ddwyieithog' yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol ynglŷn â chynnal cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyfforddiant wedi cael ei gynnig i Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion ynglŷn â defnyddio offer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Mae'r llyfryn 'Bod yn ddwyieithog' yn cynnig y cyfle i swyddogion gysylltu â'r Gwasanaethau Cymraeg ynglŷn
--	---	---

		ag unrhyw anghenion hyfforddiant.
--	--	---



Safonau'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg). Caiff y 171 o safonau sy'n berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf eu rhestru yn 'Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Cafodd y ddogfen hon ei llunio er mwyn cydymffurfio â'r safonau canlynol y mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddyletswydd i gydymffurfio â nhw – 157, 159, 163, 165, 171.

Mae copi o'r safonau a gafodd eu cyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac a gaiff eu crybwyll yn y ddogfen hon ar gael yn www.rctcbc.gov.uk/GwasanaethauCymraeg

SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

Safonau sy'n cael eu pennu mewn perthynas â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

SUT RYDYN NI'N BWRIADU CYDYMFFURFIO

COFNODI DEWIS IAITH

Mae gwasanaethau unigol yn gyfrifol am gofnodi dewis iaith ei defnyddwyr. Mae rhai gwasanaethau (e.e. Gofal Cymdeithasol) yn cofnodi dewis iaith ar eu cronfeydd data eu hunain. Os does dim dewis iaith wedi ei nodi, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog.

GOHEBIAETH

Bydd holl e-byst y Cyngor yn cynnwys y datganiad canlynol:

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith h.y. Cymraeg neu'n ddwyieithog.

We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

Bydd llythyrau corfforaethol newydd yn cynnwys y datganiad canlynol yn y troednodyn:

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith h.y. Cymraeg neu'n ddwyieithog.

We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

Cafodd canllawiau eu cyhoeddi ar dudalen fewnrwyd Gwasanaethau Cymraeg CBS RhCT er mwyn helpu staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

GALWADAU FFÔN

Cafodd canllawiau staff newydd ar ymdrin â galwadau ffôn yn y Gymraeg eu cyhoeddi er mwyn helpu staff i fodloni'r gofynion hyn.

Daw'r mwyafrif helaeth o alwadau ffôn i ganolfan gyswllt y Cyngor sydd â charfan Gymraeg benodedig.

Mae modd i staff ddefnyddio hidlydd ar y fewnrwyd ganolog i weld holl siaradwyr Cymraeg eu gwasanaeth.

CYFARFODYDD

Cafodd canllawiau staff newydd ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog eu cyhoeddi er mwyn helpu staff i fodloni'r gofynion hyn.

Bydd Gwasanaethau Cymraeg, CBS RhCT yn hwyluso gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn fewnol ar gyfer bob gwasanaeth.

DOGFENNAU A FFURFLENNI

Cyfarfodydd (41)

Caiff agendâu a chofnodion eu diweddarau ar wefan CBS RhCT.

Bydd dogfennau a ffurflenni sydd ddim yn ddwyieithog (hynny yw, fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân) yn cynnwys y canlynol yn unol â safonau 49 a 50A:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg / This document is available in Welsh.

ARWYDDION A HYSBYSIADAU

Bydd gwasanaeth Dylunio'r Cyngor, lle caiff arwyddion a hysbysiadau swyddogol eu llunio, yn gwirio bod y Gymraeg yn gyntaf ar bob arwydd newydd. Bydd dylunwyr arwyddion ffordd yn dilyn yr un drefn.

Bydd unrhyw dendr, lle bydd gwasanaeth o'r Cyngor am i gwmni arall wneud gwaith ar ei ran, yn nodi'r safonau perthnasol sydd angen i'r cwmni nhw gydymffurfio â nhw. Bydd y gwasanaeth hwnnw yn gyfrifol am y gwaith monitro.

GWEFANNAU A GWASANAETHAU AR-LEIN

Mae TGCh a Gwasanaethau Cymraeg yn parhau i roi gwybod i wasanaethau bod cyfrifoldeb arny'n nhw i ddarparu deunydd Cymraeg o ran prosiectau sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Cyfrifoldeb y gwasanaeth yw penderfynu ar agweddau dwyieithog unrhyw system newydd ar ôl cael y cyngor hwn, ac yn hynny o beth, bod yn gyfrifol am fodloni unrhyw safonau.

Bydd Carfan y We a Gwasanaethau Cymraeg yn cynnal archwiliad o bob adran o www.rctcbc.gov.uk i sicrhau bod pob tudalen ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys gwirio tudalennau, ffurflenni, dogfennau, dolenni ac ati. Bydd dolen "Cymraeg / English" ar gyfer tudalennau'r wefan ar gyfer cynnig dolen uniongyrchol rhwng y cynnwys Saesneg a'r cynnwys Cymraeg cyfatebol.

GWASANAETHAU DERBYNFA

Cafodd canllawiau newydd ar gynnal gwasanaethau derbynfa eu cyhoeddi er mwyn helpu staff i fodloni'r gofynion hyn.

Byddwn ni'n parhau i weithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor. Nod hyn yw cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg.

Bydd newid ym mholisi recriwtio/penodi'r Cyngor hefyd er mwyn sicrhau bod pob swydd newydd yn nodi Sgiliau Cymraeg Lefel 1 yn faen prawf hanfodol. Bydd asesiad hefyd yn gofyn i reolwr ystyried lefelau uwch.

Rydyn ni wedi cyflogi Tiwtor y Gymraeg er mwyn mynd i'r afael â chynyddu lefelau sgiliau ein staff, yn enwedig staff rheng flaen. Mae'r Tiwtor yn cynnig gwersi ar adegau a lleoliadau cyfleus. Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n parhau i hyrwyddo pecyn hyblyg o gyrsiau iaith Gymraeg drwy wasanaethau Cymraeg i Oedolion.

DYFARNU GRANTIAU

Cafodd y dogfennau mynegi diddordeb am grantiau'r Cyngor eu diweddarau i gynnwys y canlynol -

Mae modd i chi gyflwyno ffurflen mynegi diddordeb yn Gymraeg a fyddwn ni ddim yn trin unrhyw gais a gaiff ei gyflwyno yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a gaiff ei gyflwyno yn Saesneg

An Expression of Interest form may be submitted in Welsh, and will not be treated any less favourable than an Expression of Interest form submitted in English.

ac mae llythyrau sy'n gwahodd unigolion i gyfweiliadau yn cynnwys y canlynol -

Mae modd i chi gael y cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe hoffech chi wneud hyn, rhowch

wybod erbyn xx/xx/xxxx.

Should you wish for the interview to be conducted in Welsh please inform me by xx/xx/xxxx.

Mae pob grant mae'r Cyngor yn ei weinyddu yn cynnwys meini prawf a thelerau ac amodau unigol. Lle mae'r Cyngor yn gyfrifol dros y rhain, bydd y gwasanaethau priodol yn mynd ati i'w diweddarau er mwyn adlewyrchu gofynion y safonau.

DYFARNU CONTRACTAU

Cafodd manylebau tendr Uned Caffael y Cyngor eu diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd. Mae'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan EtenderWales (sydd hefyd yn ddwyieithog) ac yn cynnwys y canlynol -

Rhaid cwblhau'r tendrau yn Gymraeg a/neu'n Saesneg. Fydd tendrau a gaiff eu cyflwyno yn Gymraeg ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na thendrau a gaiff eu cyflwyno yn Saesneg.

Tenders must be completed in Welsh and/or English. Tenders submitted in Welsh will be treated no less favourably than a tender submitted in English.

Mae'r wefan hefyd yn anfon negeseuon er mwyn hysbysu unigolion bod dogfen newydd wedi'i llwytho – mae'r neges yn ddwyieithog ynghyd â'r llythyr sy'n gwahodd pobl i gyfweiliad. Mae'r llythyr yn cynnwys y canlynol -

Mae modd i chi gael y cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe hoffech chi wneud hyn, rhowch wybod erbyn xx/xx/xxxx.

Should you wish for the interview to be conducted in Welsh please inform me by xx/xx/xxxx.

Bydd Gwasanaethau Cymraeg CBS RhCT yn cynnig/hwyluso gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a bydd unrhyw fanyleb contract yn dilyn y cyngor canlynol sydd wedi ei gyhoeddi yn fewnol -

Rhaid i fanyleb y contract nodi holl ofynion y contract, gan gynnwys manylion unrhyw Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r contract, a'i weithredu ar gyfer cyfnod y cytundeb.

The contract specification must set out the entire requirements of the contract, including details of the Welsh Language Standards applicable to the delivery of the contract throughout the contract term.

Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio canllaw ar gyfer partneriaid sydd wedi'i gomisiynu yn helpu iddyn nhw gydymffurfio â safonau perthnasol o weithredu ar ran y Cyngor.

CYRSIAU A GAIFF EU CYNNIG GAN GORFF

Bydd Gwasanaeth Addysg yn y Gymunedyn gweithredu cynnig rhagweithiol wrth i bobl ymrestru ac yn defnyddio'r data er mwyn asesu a oes angen cyflwyno'r cwrs yn Gymraeg ai peidio.

SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

GORUCHWYLIO, HYRWYDDO A HWYLUSO

Mae Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwyllo datblygiadau strategol, yn ystyried adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, gan fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio bodloni Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, cafodd Gweithgor sy'n cynnwys Prif Swyddogion ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y newidiadau gweithredol gofynnol yn cael eu rhoi ar waith, ynghyd â dull cydweithiol a fydd yn helpu gwasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 14 (2017/2018) o weithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Swyddog Cydymffurfio - y Gymraeg sy'n cynnal archwiliadau manwl o waith y gwasanaethau. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau.
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- nodi meysydd posibl o ran methu â chydymffurfio
- atgyfeirio cwynion ffurfiol mewn perthynas â methu â chydymffurfio i Swyddog Cwynion y Cyngor
- cofnodi cwynion anffurfiol gan gwsmeriaid a llunio adroddiadau fesul chwe mis ar gyfer Gweithgor y Gymraeg
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a Gweithgor y Gymraeg
- hwyluso pwyllgorau staff, e.e. Gweithgor y Gymraeg (Y Gweithgor)
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg y gymuned fel sy'n briodol

SAFONAU LLUNIO POLISIÂU

Safonau sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

SUT RYDYN NI'N BWRIADU CYDYMFFURFIO

Mae ymrwymiadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn rhan annatod o'i ddogfennau cynllunio gan gynnwys Cynllun Gwella 2015, Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 a Chynllun Corfforaethol 2016-2020. Mae blaenoriaethau'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth ddiweddar sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg.

Cafodd gweithgor adnoddau dynol ei sefydlu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae polisiâu adnoddau dynol wrthi'n cael eu hadolygu i brif-ffrydio materion y Gymraeg ac yn cael eu cyfieithu.

Mae Uwch Garfan Arwain y Cyngor yn mynnu bod pob gwasanaeth yn cynnal Hunan Asesiad sy'n cynnwys adran ar sut maen nhw wedi llwyddo i gydymffurfio â'r safonau perthnasol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf dempled Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb sy'n gofyn yn benodol am unrhyw effaith negyddol neu bositif bydd penderfyniad polisi yn ei gael ar y Gymraeg.

Mae gan bob grant mae'r Cyngor yn ei weinyddu feini prawf a thelerau ac amodau unigol. Pan fo'r Cyngor yn gyfrifol am y rhain, bydd y gwasanaethau priodol yn mynd ati i ddiweddarau'r dogfennau er mwyn adlewyrchu gofynion y safonau.

Pryd bynnag y mae'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad neu waith ymchwil sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl ar:

- allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a ph'un a yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal;
- effeithiau cynyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; a
- chyflwyno'r polisi yn y fath fodd fel ei fod ddim yn cael effaith negyddol (neu effaith llai negyddol) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

SAFONAU LLUNIO POLISI'AU

GORUCHWYLIO, HYRWYDDO A HWYLUSO

Mae Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwyllo datblygiadau strategol, yn ystyried adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, gan fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio bodloni Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, cafodd Gweithgor sy'n cynnwys Prif Swyddogion ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y newidiadau gweithredol gofynnol yn cael eu rhoi ar waith, ynghyd â dull cydweithiol a fydd yn helpu gwasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 14 (2017/2018) o weithwyr, gan gynnwys Swyddog Cydymffurfio - y Gymraeg. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau.
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- nodi meysydd posibl o ran methu â chydymffurfio
- atgyfeirio cwynion ffurfiol mewn perthynas â methu â chydymffurfio i Swyddog Cwynion y Cyngor
- cofnodi cwynion anffurfiol gan gwsmeriaid a llunio adroddiadau fesul chwe mis ar gyfer Gweithgor y Gymraeg
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a Gweithgor y Gymraeg
- hwyluso pwyllgorau staff, e.e. Gweithgor y Gymraeg (Y Gweithgor)
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg y gymuned fel sy'n briodol

SAFONAU GWEITHREDU

Mae'r Safonau yma yn delio â'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r Gymraeg o fewn sefydliadau, er enghraifft, sicrhau dydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran materion cyflogaeth, lles a hyfforddiant a sicrhau bod pob swyddog yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg.

SUT RYDYN NI'N BWRIADU CYDYMFFURFIO

99 Swyddi Newydd

Ar hyn o bryd caiff contractau eu cynnig i gyflogaion newydd yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'u dewis iaith.

100

Gwasanaeth Adnoddau Dynol i anfon llythyr allan i holl staff yn gofyn am eu dewis iaith.

101-103 Dogfennau Hyfforddiant, Perfformiad a Chynllun Gyrfa

Mae dogfennau corfforaethol sy'n ymwneud ag anghenion hyfforddiant, perfformiad neu Gynllun Gyrfa yn cael eu llunio'n ddwyieithog.

104

Mae dogfennau corfforaethol sy'n cofnodi gwyliau, absenoldebau o'r gwaith neu oriau gwaith hyblyg yn cael eu llunio'n ddwyieithog.

105-111 Polisiâu AD

Mae'r polisiâu a nodir yn safonau 105-111 ar gael yn ddwyieithog.

112-119 Cwynion a Disgyblu

Mae polisiâu sy'n delio â chwynion staff neu'r broses disgyblu wedi eu diweddarau er mwyn hysbysu staff a rheolwyr o hawliau staff sydd am gael gwybodaeth/dilyn prosesau yn Gymraeg.

120 Meddalwedd

Mae Cysgliad ar gael i bob aelod o staff sydd â chyfrifiadur. Caiff y ffaith ei fod ar gael ei nodi yn ein canllawiau staff a hyfforddiant. Mae modd i staff ofyn am gopi trwy'r Ddesg Gwasanaeth TGCh.

122-126 Y Fewnrwyd

Bydd TGCh a Gwasanaethau Cymraeg CBS RhCT yn cydweithio i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei ddyletswydd i greu gwefan fewnrwyd ddwyieithog i staff o fewn y dyddiadau cydymffurfio a nodir.

127 Asesu sgiliau iaith

Caiff llythyr arolwg ei anfon at yr holl staff fel bod modd i staff gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg.

128-132 Hyfforddiant

Bydd ffurflenni cadw lle ar gyrsiau sy'n cael eu nodi yn y safonau yn gofyn i staff a ydyn nhw am ddilyn hyfforddiant yn Gymraeg (128).

Mae potensial i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yn Ne-ddwyrain Cymru i drefnu hyfforddiant yn Gymraeg yn cael ei drafod.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn Tiwtor Cymraeg sydd yn cefnogi a thiwtora staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd trwy gyrsiau Magu Hyder.

Mae'r Tiwtor hefyd yn cynnal cyrsiau am ddim i holl staff CBS RhCT (blaenoriaeth i staff rheng flaen) ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n addas a chyfleus iddyn nhw. Mae'r cyrsiau yma yn amrywio o rai ar gyfer dechreuwr llwyr i rai ar gyfer siaradwr rhugl.

Mae cwrs Ymwybyddiaeth Iaith ar Gael ar-lein ar ein gwefan hyfforddiant electronig.

Nod y cwrs yw i staff:

- Ddeall pwysigrwydd y Gymraeg o ran cynnig gwasanaethau'r Cyngor yng Nghymru.
- Deall rôl a chyfrifoldeb staff wrth gynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut maen nhw'n cynnig gwasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella.
- Deall a gallu defnyddio geiriau a brawddegau Cymraeg syml a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith.

133 Staff Newydd

Mae cyflwyniad Croeso Corfforaethol yn cynnwys adran ar y Gymraeg ac mae pob aelod o staff newydd yn mynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg Lefel 1.

134 - 135 Llofnodion e-byst a logos

Mae canllawiau staff, sydd hefyd ar Gael ar ein mewnrwyd, yn nodi sut i Gael gafael ar y logos a chyfieithiadau er mwyn bodloni'r safonau yma.

136 Gofynion asesu ieithyddol ar gyfer pob swydd wag.

Bydd newid ym mholisi recriwtio/penodi'r Cyngor yn golygu bod pob swydd newydd yn gofyn am Sgiliau Cymraeg Lefel 1 yn faen prawf hanfodol. Bydd asesiad ehangach, electronig gorfodol yn gofyn i reolwr ystyried lefelau uwch.

Bydd pob aelod o staff newydd yn cael ei asesu gan ein Tiwtor Cymraeg o ran lefel ei Gymraeg/Chymraeg a phennu hyfforddiant priodol os oes angen. Bydd yr hyfforddiant am ddim.

137 – 139 Ffurflenni Cais

Mae holl wybodaeth recriwtio'r Cyngor ar Gael ar lein yn ddwyieithog a chaiff ffurflenni cais eu diweddarau i fodloni'r gofynion newydd.

Mae ein llythyrau electronig, awtomatig, sydd yn cynnig cyfweiliad i ymgeiswyr hefyd yn nodi'r canlynol -

Rhowch wybod i ni os dymunwch ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad. Byddwn ni'n darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os oes angen.

Please let us know if you would like the interview to be undertaken in Welsh. If necessary, we will provide a translation service for that purpose.

140

Mae'r llythyrau sydd yn rhoi gwybod i unigolyn am y penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd ar Gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn cael eu hanfon yn dibynnu ar ddewis iaith yr unigolyn.

141-143 Arwyddion a ddangosir yng ngweithle'r corff

Cafodd nodyn canllaw newydd ei gyhoeddi ar arwyddion a hysbysiadau er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion yma.

SAFONAU GWEITHREDU

GORUCHWYLIO, HYRWYDDO A HWYLUSO

Mae Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwyllo datblygiadau strategol, yn ystyried adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, gan fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio bodloni Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, cafodd Gweithgor sy'n cynnwys Prif Swyddogion ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y newidiadau gweithredol gofynnol yn cael eu rhoi ar waith, ynghyd â dull cydweithiol a fydd yn helpu gwasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 14 (2017/2018) o weithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Swyddog Cydymffurfio - y Gymraeg. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau.
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- nodi meysydd posibl o ran methu â chydymffurfio
- atgyfeirio cwynion ffurfiol mewn perthynas â methu â chydymffurfio i Swyddog Cwynion y Cyngor
- cofnodi cwynion anffurfiol gan gwsmeriaid a llunio adroddiadau fesul chwe mis ar gyfer Gweithgor y Gymraeg
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ynglŷn â materion y Gymraeg a Gweithgor y Gymraeg
- hwyluso pwyllgorau staff, e.e. Gweithgor y Gymraeg (Y Gweithgor)
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg y gymuned fel sy'n briodol